**Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion**

# TR429(W)(Welsh) Telerau ac Amodau Cymeradwyo a Gweithredu Uned Besgi Drwyddedig (Cymru)

## Gorffennaf 2024

### Contents


Uned Besgi Drwyddedig: Uned sydd o dan gyfyngiadau TB yn yr Ardal TB Isel ac yn Ardaloedd TB Canolradd Cymru ar gyfer Pesgi Gwartheg o Fuchesi Lluosog sydd Heb Dwbercwlosis yn Swyddogol heb fod angen cynnal profion ar ôl symud ....2

Cefndir a Diben ....2

Ffynhonnell y Gwartheg ....2

Safle pen y daith y gwartheg ....3

Profion TB ar Unedau Pesgi Trwyddedig ....3

Amodau ....3

Gwneud Cais ac Archwilio ....5

Camau gweithredu os bydd achos o TB mewn Uned Besgi Drwyddedig ....6

Camau gweithredu ar y fferm wreiddiol pan fydd anifeiliaid wedi cael eu hanfon i Uned Besgi Drwyddedig ....6

Adennill statws Heb TB yn Swyddogol (codi cyfyngiadau TB ar yr Uned Besgi Drwyddedig) ....6

Protocol 1: Diboblogi ....7

Protocol 2: Profi ....7

# Uned Besgi Drwyddedig: Uned sydd o dan gyfyngiadau TB yn yr Ardal TB Isel ac yn Ardaloedd TB Canolradd Cymru ar gyfer Pesgi Gwartheg o Fuchesi Lluosog sydd Heb Dwbercwlosis yn Swyddogol heb fod angen cynnal profion ar ôl symud

## Cefndir a Diben

1. Cyflwynwyd Unedau Pesgi Trwyddedig yn yr Ardal TB Isel er mwyn cynnig yr opsiwn o gael eu heithrio rhag cynnal Profion ar ôl Symud ar wartheg sy'n symud i'r uned besgi. Cafodd hwn ei estyn i'r Ardaloedd TB Canolradd er mwyn cynnig opsiwn ar gyfer pesgi buchesi.
2. Mae'r Uned Besgi Drwyddedig yn fan ar gyfer pesgi gwartheg sydd wedi cael prawf negatif o fuchesi Heb TB yn Swyddogol, o dan amodau bioddiogelwch llym er mwyn lleihau'r risg o ledaenu haint M.bovis i fuchesi gwartheg cyfagos a bywyd gwyllt lleol. Gall gwartheg ddod o sawl safle Heb TB yn Swyddogol, gan gynnwys unrhyw ardal yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Gall gwartheg sydd wedi'u mewnforio symud i'r unedau hyn yn amodol ar gydymffurfiaeth â gofynion mewnforio penodol.
3. Caiff yr Uned Besgi Drwyddedig ei chymeradwyo ar gyfer gwartheg yn unig. Ni chaniateir rhywogaethau o anifeiliaid eraill yn yr unedau hyn.
4. Uned besgi ar gyfer gwartheg yn unig yw'r Uned Besgi Drwyddedig. Ni ellir eu cymeradwyo fel unedau magu. Nid yw'r Uned Besgi Drwyddedig wedi'i bwriadu ar gyfer anifeiliaid cyflo ac ni ddylai unrhyw fagu ddigwydd yn yr uned. Mae'n rhaid bod trefniadau wrth gefn ar waith i ymdrin â lloi sy'n cael eu geni'n annisgwyl yn yr uned.
5. Lluniwyd yr amodau ar gyfer cymeradwyo a gweithredu Unedau Pesgi Trwyddedig er mwyn sicrhau diogelwch rhag clefyd:
   - rhaid i'r uned fod o dan gyfyngiadau TB
   - rhaid i'r uned gael Rhif Daliad (CPH) parhaol unigryw a bod wedi'i chofrestru â'r Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) a'r System Olrhain Gwartheg (CTS)
   - rhaid i'r uned beidio â bod â Rhif Daliad dros dro (tCPH) na bod â Chysylltiad Tir Dros Dro (TRA) yn gofrestredig yn erbyn ei Rhif Daliad ac ni ddylai tir/safle sy'n gofrestredig yn erbyn Rhif y Daliad fod yn gysylltiedig dros dro drwy TLA neu tCPH â Rhif y Daliad arall.

## Ffynhonnell y Gwartheg

1. Rhaid lleihau'r risg o gyflwyno'r haint i Ardal TB Isel ac Ardaloedd TB Canolradd Cymru, ac felly mae'n ofyniad mai dim ond gwartheg o fuchesi Heb TB Swyddogol y gellir eu symud i unedau pesgi trwyddedig, a lle mae'n ofynnol i wartheg gael eu profi cyn symud, eu bod wedi cael prawf cyn symud gyda chanlyniadau negatif.
2. Gall gwartheg ddod o sawl safle Heb TB yn Swyddogol, gan gynnwys unrhyw ardal yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

3. Gall gwartheg sydd wedi'u mewnforio symud i'r unedau hyn yn amodol ar gydymffurfiaeth â gofynion mewnforio penodol.

## Safle pen y daith y gwartheg

1. Yr unig symudiadau gwartheg a ganiateir allan o'r Uned Besgi Drwyddedig yw ar gyfer lladd:
    - yn uniongyrchol o dan drwydded gyffredinol (TB203 neu TB24g)
    - drwy grynhoad cymeradwy o anifeiliaid i gael eu lladd yng Nghymru neu Loegr ar gyfer gwartheg o dan gyfyngiadau TB o dan drwydded gyffredinol (TB203)
    - yn uniongyrchol o dan drwydded benodol (TB24) (achosion eithriadol yn unig).

## Profion TB ar Unedau Pesgi Trwyddedig

1. Nid oes angen cynnal profion rheolaidd ar wartheg yn yr Uned Besgi Drwyddedig.
2. Mae gwartheg yn yr uned wedi'u heithrio rhag profion ar ôl symud, ar yr amod bod gofynion profion cyn symud wedi cael eu bodloni.
3. bydd anifeiliaid sydd wedi cael eu mewnforio sy'n symud yn uniongyrchol i Uned Besgi Drwyddedig yn cael eu heithrio rhag profion TB ar ôl mewnforio cyn belled â bod pob amod arall at ddibenion allforio wedi cael eu bodloni.
4. Ni chaiff gwartheg a symudwyd o safle lle bydd achos o TB ar ôl hynny yn cael eu holrhain ac ni chaiff yr uned ei hysbysu.

## Amodau

1. Nod yr amodau a restrir isod yw sicrhau bod yr Uned Besgi Drwyddedig yn parhau i fod yn uned hunangynhwysol ar wahân sy'n amlwg wedi'i gwahanu oddi wrth wartheg eraill, a da byw eraill a bywyd gwyllt. Yr amcan yw atal clefyd rhag lledaenu yng nghyffiniau’r uned oherwydd haint nas canfuwyd yn yr uned.
2. Gellir ystyried cymeradwyo Uned Besgi Drwyddedig os yw'r safle arfaethedig yn cydymffurfio â'r amodau canlynol:
    - gellir ond ei chymeradwyo ar safle sydd Heb TB yn Swyddogol. Ni ellir rhoi Rhif Daliad newydd na sefydlu Uned Besgi Drwyddedig ar safleoedd sydd o dan gyfyngiadau symud (TB02)
    - dylai pob uned fodloni'r holl feini prawf gofynnol i fod yn gymwys i gael rhif daliad ar wahân
    - dylai ffiniau'r uned fod wedi'u diffinio'n dda a dylent fod yn amlwg, yn effeithiol ac yn ddiogel, gyda mynedfa/allanfa bwrpasol. Dylai fod adeiladau, trefniadau rheoli, offer (gweler isod), peiriannau (gweler isod), buarthau ac ati ar wahân
    - dylai’r uned fod yn ddiogel rhag da byw heb unrhyw gyfle i grwydro nac i gael cyswllt trwyn wrth drwyn. Dylai fod rhwystr cadarn (e.e. wal solet) neu bwlch o 3 metr o leiaf rhwng y gwartheg yn yr uned â da byw y tu allan i'r uned
    - gall gwartheg ond symud i'r uned o dan drwydded a gyflwynir gan APHA. Ni ddylai unrhyw wartheg eraill, nac unrhyw da byw, ceffylau neu dofendod, gael mynediad at yr uned ar unrhyw adeg
    - ni ddylid cydleoli unedau ar fuarth lle y cedwir buches arall

- ni ellir cydleoli mwy nag un uned o fewn yr un ardal fuarth, ond gall mwy nag un adeilad o fewn ardal fuarth fod yn dderbyniol fel un uned
- rhaid sicrhau bod digon o le yn yr adeiladau er mwyn galluogi'r gwartheg i dyfu a rhaid nodi'r uchafswm niferoedd yn yr amodau cymeradwyo. Cyfrifoldeb perchennog/gweithredwr yr uned yw sicrhau na thanseilir lles y gwartheg drwy orlenwi. Dylai nifer y gwartheg y gall uned ei dal gael ei gynnwys ar y gymeradwyaeth ac mae'n rhaid bod y perchennog/gweithredwr wedi ystyried hapddigwyddiadau er mwyn osgoi amodau lles andwyol posibl a bydd yn cofnodi ac yn cytuno ar hyn
- rhaid bod cyfleusterau profi pwrpasol digonol; dylai'r rhain gynnwys o leiaf wasgfa, rhedfa ddigon hir a buarth casglu
- rhaid i unedau gydymffurfio â bioddiogelwch llym gyda phrotocolau ar waith ar gyfer symudiadau personél, offer a cherbydau sy'n cyrraedd ac yn gadael yr uned. Rhaid cyfyngu symudiadau o'r fath i'r rhai sy'n hanfodol er mwyn cynnal yr uned
- rhaid i brotocolau gynnwys mynediad at borthiant
- rhaid i unedau fod yn gwbl ddiogel rhag bywyd gwyllt. Rhaid bod yr adeiladau a buarthau lle mae'r gwartheg yn cael eu cadw naill ai'n gwbl ddiogel rhag bywyd gwyllt neu rhaid bod y ffin â'r uned yn gwbl ddiogel rhag bywyd gwyllt
- yn y cyd-destun hwn mae bywyd gwyllt yn cyfeirio at rywogaethau o famaliaid gwyllt sy'n gallu gweithredu fel cronfeydd o M. bovis (e.e. moch daear ac, o bosibl, carw gwyllt) ac mae amodau addas yn cynnwys y canlynol:
    - ni ddylai ochrau'r adeilad fod yn agored ond dylent fod o adeiladwaith llyfn a chadarn (h.y. fel na all bywyd gwyllt ddod i mewn i'r adeilad) ac o leiaf 1.5m o uchder
    - dylai drysau a gatiau fod o adeiladwaith llyfn a chadarn ac o leiaf 1.5m o uchder (gellir ychwanegu dalenni metel at tu allan i’r gatiau pum bar)
    - ni ddylai bylchau wrth ochrau drysau, gatiau a waliau ac oddi tanynt fod yn fwy na 7.5cm ac ni ddylai fod modd eu gwneud yn fwy drwy gloddio neu gnoi
- lle y bo'n briodol, caiff ffensys trydan eu defnyddio ar ffiniau'r Uned Besgi Drwyddedig er mwyn sicrhau na all bywyd gwyllt fynd i mewn iddi (byddai arfer gorau hefyd yn cynnwys storfeydd porthiant a wyneb silwair ac ati er mwyn atal ychwanegu at y risg o glefyd gan fywyd gwyllt lleol). Lle y caiff ffensys trydan eu defnyddio mae'n bwysig nodi y dylai'r gwifrau fod wedi'u gosod 10, 15, 20 a 30cm uwchlaw'r ddaear os defnyddir personél, offer neu gerbydau neu os bydd ganddynt fynediad at wartheg eraill y tu allan i'r uned, a dylai'r protocol bioddiogelwch gyfeirio at hyn
- dylai cyfarpar a pheiriannau ond fod at ddefnydd yr uned yn unig, oni bai am y canlynol:
    - bod yr halogi ar lefel y gellir ei lanhau yn foddhaol gan ddefnyddio chwipolchwr a diheintydd
    - dylid delio ag unrhyw halogiad ar unwaith ac yn sicr cyn y bydd cyswllt ag unrhyw dda byw eraill a allai gael haint TB
    - caiff halogiad ei asesu yn unol â'r risg
- bydd angen protocol bioddiogelwch ysgrifenedig llawn ac effeithiol ar gyfer yr holl offer a pheiriannau a rennir. Rhaid cael dulliau digonol i lanhau a dihentio cerbydau a pheiriannau sy’n symud i’r uned ac oddi yno, gan cynnwys cael gwared ar halogiad difrifol cyn diheintio
- rhaid gwisgo dillad pwrpasol y gellir eu diheintio a bydd yn rhaid darparu protocol sy'n dangos mesurau i waredu'r risg o ledaenu'r clefyd y tu allan i'r uned. Rhaid cael dulliau digonol i lanhau a dihentio dillad amddiffynnol, gan cynnwys cael gwared ar halogiad difrifol cyn diheintio, e.e. dip a brwsh esgidiau

- caiff tail ei bentyrru am o leiaf tair wythnos ar safle'r uned, neu ar safle cymeradwy na all bywyd gwyllt nac anifeiliaid eraill gael mynediad iddo
- caiff slyri naill ai:
    - ei storio am chwe mis a'i daenu o leiaf 10m o ffin y fferm neu o unrhyw dir a borir gan dda byw a allai gael haint TB, neu o unrhyw adeiladau a ddefnyddir gan y da byw hynny (mae hyn yn cynnwys defaid, moch, geifr, camelidau a cheirw fferm neu barc), neu
    - os na chaiff ei storio am o leiaf chwe mis, rhaid iddo gael ei daenu drwy ei chwistrellu i mewn i'r ddaear neu ar dir âr
- yn ogystal, ni fydd da byw a allai gael haint TB yn cael mynediad i'r tir sy'n cael ei drin ac ni fydd cnwd yn cael ei dorri ar gyfer porthiant ychwaith am o leiaf 60 diwrnod ar ôl taenu'r slyri
- dylid cadw cofnodion o bob lleoliad a dyddiad taenu o'r fath
- rhaid bod protocolau ar waith hefyd ar gyfer draenio elifion a golchion o'r uned:
    - rhaid sicrhau nad yw elifion na ddŵr ffo yn draenio o'r uned i ardaloedd y mae da byw a allai gael TB yn cael mynediad iddynt
    - lle mae elifion neu ddŵr gwastraff yn draenio i mewn i ffos gerrig, ni ddylai bywyd gwyllt neu dda byw allu mynd i mewn iddi a gellid defnyddio ffensys addas i atal hynny rhag digwydd. Bydd hyn yn atal yr amgylchedd a'r bywyd gwyllt rhag cael eu halogi.

# Gwneud Cais ac Archwilio

1. dylai unigolion sy'n ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Uned Besgi Drwyddedig gysylltu â'u swyddfa APHA leol a fydd yn rhoi copi o'r ffurflen gais (TB188) a'r Telerau ac Amodau Cymeradwyo (TR429(W)) iddynt. Fel arall, mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan GOV.UK.

2. ar ôl cael ffurflen gais wedi'i chwblhau a chynllun o'r safle, bydd APHA yn asesu'r cais ac os ymddengys bod yr uned yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cymeradwyaeth, bydd Arolygydd Milfeddygol yn ymweld â'r safle arfaethedig ac yn ei archwilio.

3. yn dilyn adroddiad archwilio boddhaol, anfonir cadarnhad ysgrifenedig o'r gymeradwyaeth (TB430).

4. os na fydd yr uned yn bodloni'r holl amodau sy'n ofynnol, ni chaiff cymeradwyaeth ei rhoi a bydd APHA yn rhoi gwybod i chi beth yw'r rhesymau dros hyn.

5. os caiff ei chymeradwyo, ceir Rhif y Daliad newydd gan APHA ar gyfer yr uned er y gellir ystyried defnyddio Rhif Daliad sy'n bodoli eisoes os yw'r holl safleoedd o dan y Rhif Daliad presennol i'w cynnwys yn yr uned.

6. os caiff ei gymeradwyo, cyflwynir hysbysiad ar gyfer gwartheg sydd o dan gyfyngiadau (TB02) i'r Uned Besgi Drwyddedig yn atal anifeiliaid buchol rhag cael eu symud a chaiff yr hysbysiad hwn ei gopïo a'i anfon i'r Awdurdod Lleol perthnasol. Bydd trwyddedau hefyd yn cael eu rhoi i ganiatau symud gwartheg i mewn ac oddi wrth yr uned.

7. caiff y safle, cofnodion symud ac ati eu harchwilio'n rheolaidd (gall yr archwiliadau' fod yn ddirybudd) ac, o leiaf ddwywaith y flwyddyn, gan APHA.

8. gall methu â chydymffurfio ag unrhyw rai o'r amodau (gan gynnwys methu â chwblhau'r profion a all fod yn ofynnol) olygu y caiff y gymeradwyaeth ei thynnu'n ôl. Bydd y gymeradwyaeth a'r cyfyngiadau (TB02) yn parhau'n weithredol nes y

cyflawnir statws Heb TB yn Swyddogol, ond caiff y drwydded i symud gwartheg i'r uned ei dirymu.

9. rhaid i weithredwyr hysbysu APHA os oes newid mewn rheolaeth neu’r uned neu os oes newid strwythur neu ffin yr uned.

## Camau gweithredu os bydd achos o TB mewn Uned Besgi Drwyddedig

1. Bydd yr Uned Besgi Drwyddedig yn dilyn y gweithdrefnau APHA safonol ar gyfer iawndal, cael gwared ag adweithwyr a Chysylltiadau Uniongyrchol a chynnal post-mortem. Bydd swyddfeydd APHA yn parhau i drefnu ailbrofi Adweithyddion Amhendant. Fodd bynnag, mae gan weithredwyr yr opsiwn i ladd adweithyddion amhendant yn breifat. Fodd bynnag, gall hyn fod â goblygiadau ar ofynion profi pellach.

2. Mae pob anifail mewn Uned Besgi Drwyddedig yn mynd i gael ei ladd yn unig ac nid oes ganddo unrhyw botensial magu. Felly, at ddibenion prisio TB, caiff unrhyw wartheg mewn Uned Besgi Drwyddedig eu dosbarthu fel math masnachol.

3. Os bydd achos o TB yn yr uned:

- cynhelir profion achos o TB
- efallai y bydd y perchennog/gweithredwr am ddiboblogi'r Uned Besgi Drwyddedig yn hytrach na chwblhau'r rhaglen brofi. Yn yr achosion hyn, rhaid glanhau a diheintio'r Uned Besgi Drwyddedig fel y nodwyd yn amodau'r Hysbysiad (BT05). Caiff hyn ei archwilio cyn y caiff ailstocio ei ystyried
- gall Arweinydd Milfeddygol Cymru atal gwartheg rhag cael eu symud i'r Uned Besgi Drwyddedig os caiff achos o TB difrifol ei ddatgelu yn yr uned gyfan neu ran ohoni
- caiff y drwydded gyffredinol (TB15a) ar gyfer symudiadau i'r safle ei dirymu a'i disodli gan y gofyniad am drwydded benodol (TB15), yn amodol ar Asesiad Risg Milfeddygol tra bydd yr achos yn parhau.

## Camau gweithredu ar y fferm wreiddiol pan fydd anifeiliaid wedi cael eu hanfon i Uned Besgi Drwyddedig

1. caiff achosion lladd-dy o Unedau Pesgi Trwyddedig eu holrhain yn ôl i'r fferm wreiddiol fel mater o drefn, lle gall fod angen cynnal profion gwirio ar y fuches wreiddiol.

## Adennill statws Heb TB yn Swyddogol (codi cyfyngiadau TB ar yr Uned Besgi Drwyddedig)

1. Os bydd y gweithredwr yn penderfynu rhoi'r gorau i weithredu fel Uned Besgi Drwyddedig, rhaid iddo roi gwybod i Arweinydd Milfeddygol Cymru yn ysgrifenedig o'r bwriad i geisio am statws Heb TB yn Swyddogol.
2. Gall Unedau Pesgi Trwyddedig adfer statws Heb TB yn Swyddogol drwy ddilyn un o ddau brotocol ar ôl ymgynghori ag APHA.

# Protocol 1: Diboblogi

1. Os bydd y gweithredwr yn penderfynu diboblogi'r daliad, gellir dirymu cymeradwyaeth yr Uned Besgi Drwyddedig a chael statws Heb TB yn Swyddogol, ar yr amod bod yr amodau canlynol yn cael eu bodloni.

2. rhaid i'r gweithredwr ddatgan y canlynol yn ysgrifenedig:

- bod yr uned wedi'i diboblogi’n llwyr, gan roi dyddiad y diboblogi a
- bod yr adeiladau wedi cael eu Glanhau a'u Diheintio'n llawn fel sy'n ofynnol yn Hysbysiad (BT05): [TB restricted cattle: declare cleansing and disinfection in England - GOV.UK (www.gov.uk)]() a gaiff ei gyflwyno, gan gadarnhau'r dyddiad cwblhau

3. mewn rhai amgylchiadau bydd angen archwiliad boddhaol o'r gwaith Glanhau a'r Diheintio gan APHA ar ôl iddo gael ei gwblhau.

4. ni chaniateir cofrestru unrhyw wartheg ar y daliad - bydd APHA yn gwirio cofnodion ar y system olrhain gwartheg.

5. Os bydd y broses ddirymu'n digwydd yn ystod achos o TB sy'n mynd rhagddo, gall fod angen bodloni amodau ychwanegol cyn y gellir cael statws Heb TB yn Swyddogol.

# Protocol 2: Profi

1. Opsiwn amgen yn lle diboblogi yw rhoi system brofi ar waith er mwyn sicrhau statws Heb TB yn Swyddogol:

- rhaid rhoi'r gorau i bob symudiad i'r uned
- mae un prawf gwirio gan ddefnyddio dehongliad safonol yn ofynnol, y mae'n rhaid iddo ddechrau dim llai na 60 diwrnod ers y symudiad olaf i'r uned
- os yw'r prawf gwirio yn glir, yna caiff cymeradwyaeth yr Uned Besgi Drwyddedig ei dirymu a rhoddir statws Heb TB yn Swyddogol
- os nad yw'r prawf gwirio'n glir, yna rhaid i gymeradwyaeth ac amodau'r Uned Besgi Drwyddedig barhau mewn grym hyd nes y bydd statws yr Adweithyddion Amhendant yn glir, neu fod yr Uned Besgi Drwyddedig yn bodloni gofynion profi arferol rhyddhau achosion o TB

2. Ym mhob achos, bydd y cyfyngiadau ar dail/slyri yn parhau mewn grym nes y bydd y driniaeth a ragnodir yn yr amodau cyffredinol wedi'i chwblhau.

3. Unwaith y caiff statws Heb TB yn Swyddogol ei adfer, rhaid i'r gweithredwr ailymgeisio yn y ffordd arferol os yw am adfer yr Uned Besgi Drwyddedig.

(h) Hawlfraint y Goron 2024

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-governmentlicence/version/3/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Diogelu Data:
I gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn trin data personol ewch i www.gov.uk a chwiliwch am Siarter Gwybodaeth Bersonol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru, Asiantaeth Safonau Bwyd a Safonau Bwyd yr Alban i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.